# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E-bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Cynllunio a Mynediad |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 25 Mawrth 2026 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths,*
*Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen,*
*Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,*
*Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Mr. Rhys Evans, Salamatu Fada, Mr. Tim Jones,*
*Ms. Delyth Lloyd, Ms. Naomi Luhde-Thompson,*
*Mr. Wyn Thomas.*

# R H A G L E N

**Rhifau Tudalen**


1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.

2. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

3. **Cofnodion** — **3 - 5**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25ain Chwefror 2026 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (Copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.

4. **Adroddiadau Diweddaru** — **6 - 11**
Cyflwyno adroddiadau diweddaru, er gwybodaeth. (Copïau yma)

5. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd** — **12 - 15**
Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma)

6. **Penderfyniad Apêl** — **16 - 18**
Cyflwyno adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i wrthod apêl gan Sian Kohring yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer "Addasu adeiladau fferm segur i ffurfio 2 uned gosod gwyliau tymor byr ynghyd â gosod gwaith trin pecynnau", Llwyneinion Fechan, Dyffryn Ardudwy LL44 2HX.
(Amgaeir copi o benderfyniad yr Arolygydd – Copi yma)

EITEM RHIF 3.0

**COFNODION**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD**
**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 25 Chwefror 2026

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.

**Swyddogion**
Iwan Jones, Keira Sweenie, Iona Roberts, Aled Lloyd, Ben Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Louise Hughes, Einir Wyn Williams, Ifor Glyn Lloyd, Salamatu Fada a Naomi Luhde-Thompson.

Adroddodd y Cadeirydd fod Louise Hughes wedi rhoi aren i'w merch yn ddiweddar, ei bod wedi dychwelyd gartref bellach ac yn cryfhau'n araf. Cytunwyd anfon cyfarchion ati ar ran yr Aelodau i ddymuno gwellhad buan iddi.

2. **Datgan Diddordeb**

Dim

3. **Cofnodion**

*Mabwysiadwyd* cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi
Eitem 4(1): NP3/12/9L. Nodwyd bod y disgrifiad yn y cofnodion yn anghywir, ond bod y disgrifiad yn y cais gwreiddio yn gywir: "Gosod dau gyfleuster toiled cyhoeddus **heb unrhyw ollyngiad**" (*zero discharge*) oedd yn gywir, ac nid "Gosod dau gyfleuster toiled cyhoeddus **di-arllwys**" (*non-flush*).

4. **Ail benodi'r Fforymau Mynediad Lleol erbyn Ebrill 2026**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

*Adroddwyd:*

- bod yr Awdurdod wedi sefydlu dau Fforwm Mynediad Lleol ym mis Ebrill 2002, un ar gyfer gogledd y Parc Cenedlaethol ac un ar gyfer y de;
- bod yn rhaid i'r aelodaeth fod yn gytbwys rhwng rheolaeth tir a diddordebau hamddena, a bod angen i'r holl aelodau ddangos ymrwymiad i wella mynediad i gefn gwlad;
- nad oedd unrhyw grŵp diddordeb (heb law am fuddiannau pobl anabl) i gael cynrychiolaeth uniongyrchol ar Fforwm;
- bod aelodaeth y Fforymau'n parhau am 3 blynedd a bod rhaid ymgymryd â'r broses o ailbenodi aelodau i'r Fforymau erbyn Ebrill 2026;
- mai Mr Tim Jones oedd Aelod APCE ar Fforwm Mynediad y Gogledd, ac mai Cyng. John Pughe Roberts oedd Aelod APCE ar Fforwm Mynediad y De;
- bod angen penodi 4 Aelod i fod ar banel dethol i ystyried ceisiadau ar gyfer aelodaeth o'r Fforymau.

*Nodwyd*:

- bod gan Tim Jones a John Pughe Roberts brofiad o'r Fforwm, a'u bod eisoes yn deall y broses, ac y byddai'n fanteisiol eu cael ar y panel dethol oherwydd hynny;

*Gwirfoddolodd* y Cynghorwyr Delyth Lloyd Griffiths a Meryl Roberts i fod ar y panel dethol.

*Cynigiwyd:* – bod y Pwyllgor yn:

i. cymeradwyo'r broses a'r amserlen ar gyfer ail benodi'r Fforymau Mynediad Lleol;

ii. penodi panel dethol o bedwar aelod o APCE i ystyried ceisiadau ar gyfer aelodaeth o'r Fforymau, sef Mr Tim Jones a'r Cynghorwyr John Pughe Roberts, Delyth Lloyd Griffiths a Meryl Roberts.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

5. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau**

*Cyflwynwyd* adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

6. **Adroddiadau Diweddaru**

6.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.

6.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

*Cyflwynwyd* rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:30**

**ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 25 CHWEFROR 2026**

4. **Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau**

*Cyflwynwyd:*

(1) NP5/70/1C - Adeiladu estyniad ochr unllawr, Tŷ Isaf, Llangywer, Gwynedd LL23 7DA.

*Cyflwynwyd* adroddiad gan yr Swyddog Cynllunio (Hyfforddai Graddedig) - Rheolaeth Datblygu

*Adroddwyd:*

- y byddai’r cofnod (ar dudalen 12 o’r rhaglen) am ymgynghori gyda “chynghorydd lleol” yn cael ei ddileu;
- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor am bod y cais wedi cael ei wrthwynebu gan y Cyngor Cymuned ar sail:
    - y byddai'r balconi yn difetha cymeriad bwthyn lleol nodweddiadol,
    - nad oedd balwstradau dur yn adlewyrchu nodweddion pensaernïol lleol, a
    - bod to fflat yn anaddas mewn ardal lle oedd hi’n bwrw glaw yn aml.
- mewn ymateb:
    - nad oedd Polisïau Datblygu 1 a 15 yn gwahardd balconïau lle roeddynt wedi'u cynllunio'n briodol ac nad oeddynt yn niweidio cymeriad yr annedd na'r dirwedd;
    - bod y balwstradau dur yn cyd-fynd â rhai'r balconi presennol, gan sicrhau cysondeb gweledol ac osgoi cyflwyno deunyddiau gwahanol;
    - nad oedd polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwahardd toeau fflat lle roeddynt wedi'u cynllunio a'u lleoli'n briodol: byddai'r to wedi'i guddio i raddau helaeth gan strwythur y balconi uwchben ac ni fyddai'n amlwg yn weledol;
    - bod materion oedd yn ymwneud â pherfformiad draenio yn cael eu trafod drwy Reoliadau Adeiladu yn hytrach na pholisi cynllunio, ac na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai ffurf arfaethedig y to yn arwain at niwed i gymeriad neu swyddogaeth yr adeilad;
    - na ystyrid bod y gwrthwynebiadau a godwyd yn cael eu cefnogi gan bolisi'r Cynllun Datblygu ac nad oeddynt yn cyfiawnhau gwrthod y cais.

*Argymhellwyd:* – bod Aelodau’r Awdurdod yn **RHOI caniatâd** i’r cais yn ddarostyngedig i’r amodau a restrwyd.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

(2) NP5/73/351C - Adnewyddu a gosod system siffon newydd, Llyn Mair, Tan-y-Bwlch, Maentwrog. LL41 3AO.

*Cyflwynwyd* adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio - Rheolaeth Datblygu

*Adroddwyd:*

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor am mai cais gan APCE ydoedd;
- bod effaith o ganlyniad i lifogydd trwm wedi cael ei glustnodi yn yr ardal yn dilyn sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- mai gwaith cymharol bychan ydoedd ac na fyddai effaith gweledol iddo.

- *Argymhellwyd:* – bod Aelodau’r Awdurdod yn **RHOI caniatâd** i’r cais yn ddarostyngedig i’r amodau a restrwyd.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK

# PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
# 25 MAWRTH 2026

# CYTUNDEBAU ADRAN 106

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD, 25 MAWRTH 2026**

**CYTUNDEBAU ADRAN 106**

| Rhif | Rhif y cais | Dyddiad y daeth y cais i law | Lleoliad | Datblygiad | Y Sefyllfa Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | NP3/15/T173C | 01/08/2024 | Yr Helfa, Llanberis. LL55 4UW | Newid defnydd annedd i'w osod ar gyfer gwyliau tymor byr (Defnydd Dosbarth C6) yn dy annedd marchnad agored (Defnydd Dosbarth C3). | Cytundeb drafft wedi ei yrru 08/01/2025, disgwyl ymateb gan y cyfreithwyr.<br><br>Trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r ymgeiswyr. Gohebiaeth olaf 13/11/2025 |
| 2. | NP5/58/646 | 17/03/2023 | Tir ger Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy. | Adeiladu byngalo wedi'i addasu'n arbennig ynghyd ac annedd deulawr | Aros i'r cwmni morgais gael eu tynnu oddi ar y teitl Cofrestrfa Tir. |
| 3. | NP5/61/647A | 12/03/2024 | Ty'n y Gwater, Harlech. LL46 2UW | Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu ty menter gwledig (Ail-gyflwyniad). | Aros i'r cyfreithwyr gadarnhau manylion perchnogaeth y tir. |

Nifer o geisiadau ar restr Pwyllgor 25 Chwefror 2026 = 3

**CEISIADAU SY'N DESTUN CYTUNDEB ADRAN 106 A SYDD WEDI EU CWBLHAU ERS PWYLLGOR CYNLLUNIO & MYNEDIAD 25 CHWEFROR 2026**

| Rhif y cais | Lleoliad | Datblygiad |
|---|---|---|
| | | |

**CEISIADAU SY'N DESTUN CYTUNDEB ADRAN 106 SYDD WEDI EU GWRTHOD, TYNNU'N ÔL, NEU WEDI EU GWAREDU, NEU LLE NAD OES ANGEN CYTUNDEB PELLACH ERS PWYLLGOR CYNLLUNIO & MYNEDIAD 25 CHWEFROR 2026**

| Rhif y cais | Lleoliad | Datblygiad |
|---|---|---|
| | | |

PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD

25 MAWRTH 2026

# CEISIADAU NA PHENDERFYNWYD ARNYNT ERS 13 WYTHNOS A MWY

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 25 MAWRTH 2026**
**CEISIADAU NA PHENDERFYNWYD ARNYNT ERS 13 WYTHNOS A MWY**

**Disgwyl Gwybodaeth Ecolegol / Ymateb**

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP2/11/31P | 10/07/25 | Gwersyllfa Forest Holidays, Beddgelert. LL55 4UU | Amnewid 85 o leiniau carafanau a gwersylla gyda 22 caban gwyliau hunanarlwyo, hunangynhwysol, sy'n agored drwy gydol y flwyddyn. Codi adeilad derbynfa a chaffi newydd, darparu cyfleusterau ategol, tirlunio a gwellianau bioamrywiaeth |
| NP2/11/679H | 30/09/25 | Safle Gwersylla Cae Du, Beddgelert. LL55 4NE | Gwella llety a chyfleusterau twristaidd drwy greu lleiniau carafan teithiol/gwersylla ychwanegol, codi blociau toiledau newydd, a gwelliannau i dirlunio a gwella bioamrywiaeth ynghyd â gwaith cysylltiedig. |
| NP4/26/334D | 13/12/24 | Moel-yr-Iwrch Uchaf, Nebo, Llanrwst. LL26 0TF | Estyniad i adeiladau amaethyddol presennol |
| NP5/53/106S | 24/11/25 | Llain C1, Parc Menter Y Bala, Y Bala. LL23 7NL | Datblygiad masnachol sy'n cynnwys defnyddiau B2 a B8 gan gynnwys a) Cyfleuster Storio b) Iard Storio/Gwasanaeth Allanol c) ffordd fynediad arfaethedig a pharcio ceir; a ch) triniaethau ffin a thirlunio meddal |
| NP5/58/100F | 01/12/25 | Coed y Bachau, Dyffryn Ardudwy. LL44 2E | Trosi adeilad allanol diangen yn lety gwyliau hunanarlwyo (Dosbarth Defnydd C6) a newidiadau allanol cysylltiedig. |
| NP5/58/227E | 23/10/24 | Tir ger Tan-y-Foel, Dyffryn Ardudwy. | Codi 3 annedd ar wahân (1 fforddiadwy a 2 farchnad agored). |
| NP5/72/254 | 22/01/24 | Tir ger Dol Hir, Frongoch, LL23 7NT | Adeiladu tŷ menter gwledig a gosod uned trîn carthion. |
| NP5/73/LB27S | 24/11/25 | Gwesty'r Grapes, Maentwrog. LL41 4HN | Newid defnydd o dir i ffurfio maes parcio ychwanegol, ynghyd a myneda cerbydau newydd o'r maes parcio presennol a ail-leoli compownd presennol y biniau. |
| NP5/73/LB27T | 24/11/25 | Gwesty'r Grapes, Maentwrog. LL41 4HN | Caniatâd Adeilad Rhestredig i ffurfio maes parcio, ynghyd a creu mynedfa cerbydau newydd yn wal derfyn y maes parcio presennol |
| NP5/73/444A | 29/08/25 | The Old Tannery, Maentwrog. LL41 4HU | Estyniad to brig i ddisodli'r estyniad to fflat presennol. |

**Disgwyl Manylion gan yr Asiant / Ymgeisydd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP2/11/46U | 18/02/25 | Hostel Bryn Gwynant, Nant Gwynant. | Dymchwel rhan o'r certws, dymchwel tŷ staff unllawr modern cyfagos, trosi certws i gyfleuster storio/gweithredol, codi bloc llety newydd, codi cyfleuster storio/gweithredol unllawr, codi chwe ystafell ddosbarth unllawr o bren, storfa bin, maes parcio, ffordd fynediad wedi'i hadfer, creu mynediad i lan y llyn, rheseli canŵio i lan y llyn, estyniad unllawr i'r prif dŷ, ardal dec i'r prif dŷ, adnewyddu'r hostel ieuenctid presennol, tirlunio, gwaith trin gwastraff a gwaith cysylltiedig. (Ail-gais). |
| NP4/11/337E | 15/01/25 | Tir ger Hendre Farm, Pentre Du, Betws-y-Coed. LL24 0BN | Rhyddhau Amodau 3 (Manylion yn Ymwneud â System Garthffosiaeth Breifat), 4 (Manylion Llechi), 6 (Sampl Gwaith Cerrig) a 10 (Manylion y Goleuadau Allanol) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP4/11/337D dyddiedig 05/01/2024. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP5/50/LB59F | 29/08/25 | 14 Rhes Glandyfi, Aberdyfi. LL35 0EB | Caniatâd Adeilad Rhestredig i ailosod ffenestri dormer presennol, newidiadau mewnol, tynnu'r strwythur cefn presennol, a'i ddisodli ag estyniadau unllawr a deulawr newydd. |
| NP5/53/T154N | 17/06/24 | Adeiladau Banc y National Westminster, 44-46 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7NE | Newid defnydd y llawr gwaelod o ddefnydd A2 (Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol) i ddefnydd A1 (Siopau adwerthu a storfeydd), hepgor yr anheddau pâr a ganiatawyd yn flaenorol (2) a hepgor yr estyniad unllawr a ganiatawyd yn flaenorol y tu ôl i'r adeilad presennol. |
| NP5/56/153D | 13/11/24 | Dyfi Bike Park, Pantperthog. SY20 9AS | Cais ôl-weithredol i adeiladu caffi/bloc gweinyddol, codi lloches ymgodi, traciau ychwanegol a neidiau cysylltiedig a newidiadau i oriau agor. |
| NP5/56/153E | 12/02/25 | Dyfi Bike Park, Pantperthog. SY20 9AS | Ail-osod trac ac estyniad i ffin bresennol y safle |
| NP5/63/281 | 15/05/24 | Gorseddau, Cwmtirmynach, Y Bala. LL23 7EB | Cais rhannol ôl-weithredol am do newydd gydag uchder bondo uwch yn y cefn gan greu llety ychwanegol ar lefel llawr cyntaf, tynnu 2 simnai ac ychwanegu 2 simnai newydd, gosod 4 ffenestr dormer a 4 ffenestr to, addasu/ychwanegu ffenestri a drysau, a thirlunio gan gynnwys creu llawr caled ar gyfer parcio a man troi. |
| NP5/68/100G | 28/02/24 | Creua, Llanfrothen. LL48 6SH | Newid defnydd adeilad a chodi estyniad unllawr i adeilad presennol i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â busnes crochenwaith presennol. |
| NP5/73/440 | 05/09/25 | Tir gyferbyn a 1 & 2 Cefn Llys, Gellilydan. LL41 4ED | Cais amlinellol i godi tŷ ar wahân sengl (tŷ farchnad agored) gyda holl faterion wedi eu cadw'n ôl |

**Disgwyl Cynlluniau Diwygiedig**

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP2/11/53A | 22/08/25 | Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Pont Bethania, Nant Gwynant. | Gosod uned trîn carthion, tanc gwaredu cetris carafanau modur, adeiladu waliau cynnal gabion ynghyd a gwaith cysylltiedig |
| NP5/78/598 | 12/08/25 | Cabanau 32 & 190, Pentref Gwyliau Trawsfynydd, Bronaber. LL41 4YB | Adeiladu cabanau pren newydd gyda decin |
| NP5/78/600 | 03/11/25 | Llys Dewi, Ffordd yr Orsaf, Trawsfynydd. LL41 4TE | Gosod 4 ffenestr to i prif do y tŷ, adeiladu estyniad cefn deulawr, a codi garej ar wahân |

**Disgwyl ymateb gan yr Yngeisydd / Asiant**

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP5/52/LB65G | 14/07/25 | Hen Ddol Cottage, Y Friog. LL38 2TJ | Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer ar yr edrychiad gorllewinol. |
| NP5/55/60L | 14/11/25 | Tir yn Ffordd-y-Felin, Bryncrug. | Datblygiad preswyl (yn cynnwys 8 annedd marchnad agored a 4 annedd forddiadwy) a datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys mannau agored, parcio, mynediad a seilwaith draenio (cynlluniau diwygiedig & gwybodaeth cefnogol). |
| NP5/57/LB406A | 18/08/25 | Bryn Mair, Dolgellau. LL40 1SR | Caniatâd Adeilad Rhestredig i drosi'r adeilad allanol yn llety atodol mewn cysylltiad â'r defnydd Gwely a Brecwast, newidiadau mewnol ac allanol a gosod pwmp gwres ffynhonnell aer. |
| NP5/57/494W | 10/11/25 | Coleg Meirion Dwyfor, Ffordd Ty'n y Coed, Dolgellau. LL40 2SW | Codi adeilad addysgol a datblygiadau cysylltiedig, gan gynnwys llwybrau mynediad a llwybrau cerdded, paneli ffotofoltäig solar, peiriannau allanol gan gynnwys pympiau gwres ffynhonnell aer, waliau cynnal, draeniad, ardal rhandir a thirlunio |
| NP5/67/352 | 07/08/25 | Coed y Fedw, Abergynolwyn. | Mynediad cerbydau i briffordd gyhoeddus ac adeiladu trac mynediad at ddibenion coedwigaeth |

**Disgwyl Ymateb i Ymgynghoriadadau a’r fanylion a dderbyniwyd yn ddiweddar**

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP3/15/246 | 02/10/25 | Sgubor ger 1 Mur Mawr, Llanberis, LL55 4TG | Trosi a newid arfaethdig i adeilad allanol presennol er mwyn ffurfio llety gwyliau hunangynhwysol newydd (sy’n dod o dan Dosbarth Defnydd C6). |
| NP5/58/596B | 24/07/25 | Station House, Ffordd Yr Orsaf, Dyffryn Ardudwy. LL44 2EU | Newid defnydd cyn ystafell aros rheilffordd o A1 (siopau) i C3 (preswyl) fel estyniad i’r ty gorsaf presennol. |
| NP5/62/LB297B | 05/10/22 | Capel Gwynfryn, Llanbedr. LL45 2PA | Trosi capel yn dŷ, newidiadau i’r fynedfa bresennol (Adleoli plinth), a gosod uned trîn carthion a draeniau cysylltiedig. |
| NP5/64/86J | 13/10/25 | Codi storfa tail (cais diwygiedig i’r un a wrthodwyd o dan gyfeirnod NP5/64/86H). | Fferm Nant Y Cynog, Llanegryn, LL36 9LN |
| NP5/68/T187B | 05/11/25 | The Drum House, Croesor. LL48 6SP | Trosi adeilad i lety gwyliau hunan arlwyo (Defnydd C6) fel rhan o gynllun menter gwledig ynghyd a gosod paneli solar, a gosod tanc septig newydd. |
| NP5/70/6H | 19/12/25 | Maesyfallen, Rhosygwaliau. LL23 7EY | Adeiladu storfa amaethyddol |
| NP5/70/123D | 28/07/25 | Garth Lwyd, Rhosygwaliau. LL23 7PL | Dymchwel garej unllawr presennol ac adeiladu estyniad deulawr, a throsi ysgubor yn sba nofio, cyfleusterau newid ac ystafell ymolchi, a lle storio ar gyfer defnyddwyr anabl. Adeiladu estyniad cyswllt unllawr rhwng y tŷ a'r ysgubor. |
| NP5/71/L277B | 03/07/25 | 2 Pont Afon Fechan, Llanuwchllyn. LL23 7DE | Cais ôl-weithredol i osod ffliw bwyler a amnewid cladin [Fliw ddiwygiedig] |
| NP5/74/76C | 27/11/25 | Tir yn Gwesty Dolbrawdmaeth, Dinas Mawddwy, SY20 9LP | Lleoli 1 uned gwyliau a gwaith cysylltiedig |

**Aros am Ymateb yr Ymgeiswyr i Lythyr Cais Adran 106**

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP4/12/228C | 01/10/24 | Ysgol Tal-y-Bont, Tal-y-Bont. LL32 8QF | Dymchwel cyn gaban ystafell ddosbarth ac addasu cyn ysgol a phorthdy prifathro yn ddau annedd a garej/gweithdy dwbl newydd (Ail-gais) |

**Galwad i Mewn yn cael ei Hystyried gan Lywodraeth Cymru**

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP5/59/495C | 17/07/24 | Tir ger Pont yr Afon Gam, Llan Ffestiniog. | Cynllun cynhyrchu trydan dwr arfaethedig i gynhyrchu hyd at (600kW) yn Afon Cynfal, i gynnwys llwybr pibelli, cored mewnlif, pwll echdynnu, llifddor o dan y ddaear (tua 1.2km), adeilad tyrbin, adeilad mesuryddion, newidiadau i'r mynediad presennol ac ail-osod lleoli mynedfa priffordd bresennol, ardaloedd gosod i lawr, compownd adeiladu dros dro, gwyriad llwybr troed dros dro a chysylltiad pwer trydan uwchben ac o dan y ddaear i’r grid cenedlaethol (tua 600m) (Ail-gais) |

Nifer o geisiadau ar y rhestr = 38

Nifer o geisiadau ar y rhestr Pwyllgor 25 Chwefror 2026 = 31

## PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD

## 25 MAWRTH 2026

# PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 25 CHWEFROR 2026**

**PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG**

**Ceisiadau wedi ei caniatau**

| | Rhif y Cais | Bwriad | Lleoliad | Dyddiad Penderfyniad | Swyddog Achos |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | NP2/11/98D | Gosod arae haul 445W wedi eu gosod ar y ddaear (21 panel) | Tyn y Chwarel, Llanfrothen, LL48 6SN | 12/02/26 | Mr Aled Lloyd |
| 2. | NP4/11/415A | Diwygiad ansylweddol i Amod 5 o Ganiatad Cynllunio NP4/11/415 dyddiedig 12/11/2024 i alluogi gwaith i ddechrau ar yr annedd yn unig cyn bydd cynllun tirlunio wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo. | Glan Lledr Bungalow, Betws-y-Coed. LL24 0SN | 10/02/26 | Mr. Dafydd Thomas |
| 3. | NP4/19/25H | Newid defnydd o dy (Dosbarth Defnydd C3) i lety gwyliau byr dymor (Dosbarth Defnydd C6) a newid defnydd o anecs i phrif dy parhaol (Dosbarth Defnydd C3), codi estyniadau, ymestyn cyffwrdd domestig a chodi garej coed a adeiladau gweithdy/storio. | Llechen Uchaf, Llechwedd, Conwy. LL32 8LX | 16/02/26 | Mr Richard Thomas |
| 4. | NP4/19/8X | Estyniad ffrynt unllawr wedi ei wydro a ychwanegu ffenestri to | Tyddyn Mawr, Rowen. LL32 8YL | 09/02/26 | Mr Aled Lloyd |
| 5. | NP4/30/154B | Estyniadau a newidiadau i annedd gan gynnwys estyniad rhannol unllawr/rhannol ddeulawr i ddarparu ardal fwyta/byw cynllun agored ac ystafell wely estynedig. Mewnlenwi ochr unllawr i'r ardal ganopi bresennol, estyniad a mewnlenwi i'r porth presennol i ddarparu mynedfa newydd. Newidiadau i ffenestri a drysau gan gynnwys ychwanegu goleuadau to. Newidiadau i'r teras uchel cefn presennol | Mountain Lodge, Ffordd Sychnant, Conwy. LL32 8BJ | 09/02/26 | Mrs. Iona Roberts |
| 6. | NP4/31/124B | Cais ôl-weithredol ar gyfer adeiladu dau bwynt mynediad dros dro oddi ar y B4407, llwybr mynediad dros dro a ardal llwytho a gwaith cysylltiedig at ddibenion coedwigaeth. | Coed Blaen y Coed, Ysbyty Ifan. LL24 0NY | 03/03/26 | Mr. Gavin Roberts |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. | NP5/53/580J | Diwygio Amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) ynhlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/53/580 dyddiedig 25/05/2021 | Llyn Tegid, Bala. | 24/02/26 | Ms. Sophie Berry |
| 8. | NP5/57/1176H | Amrywio Amod 2 (Cynlluniau a Gymeradwywyd) a dileu Amod 3 (Gwahardd codi llochesi, tai gwydr ac ati) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/57/1176 dyddiedig 10/11/2023 a chodi lloches beiciau a llynau ceir, tai gwydr a sied | Canolfan Dolfeurig, Dolgellau. LL40 1EL | 03/03/26 | Mr David Jones |
| 9. | NP5/57/T619 | Dymchwel yr estyniad unllawr presennol ac adeiladu estyniad unllawr yn ei le | Ceryst, 7 Springfield Street, Dolgellau. LL40 1LY | 18/02/26 | Mr David Jones |
| 10. | NP5/58/141B | Codi garej/gweithdy ar wahan newydd | Llwyn Ynn Cottage, Talybont. LL43 2AH | 13/02/26 | Mr Aled Lloyd |
| 11. | NP5/58/280B | Codi estyniad cefn i gysylltu'r ty efo'r garej ar wahan i greu ystafell wely ychwanegol a gosod 4 ffenestr yn y to | 11 Glan Ysgethin, Talybont. LL43 2BB | 04/03/26 | Mr Aled Lloyd |
| 12. | NP5/61/377B | Tynnu'r to a'r gwydr presennol a chodi to newydd, 400mm yn uwch na'r presennol, ynghyd a gosod tair ffenestr dormer newydd i ddefnyddio'r adeilad fel anecs | Llechwedd Du Bach, Harlech. LL46 2UU | 03/03/26 | Mr Aled Lloyd |
| 13. | NP5/61/466A | Diwygiad Ansylweddol i Ganiatad Cynllunio NP5/61/PIAW466 dyddiedig 19/01/2007 i godi uchder y garej i gynnwys ystafell wely ychwanegol uwchben | Llain 5, Cae Main, Hwyfa'r Nant, Harlech. LL46 2UE | 05/02/26 | Mr Aled Lloyd |
| 14. | NP5/61/680 | Newid defnydd o Ddosbarth Defnydd C5 (Cartref gwyliau) i Ddosbarth Defnydd C6 (Llety gwyliau) | Bryn-y-Coed, Stryd Fawr, Harlech. LL46 2YT | 09/02/26 | Mr Aled Lloyd |
| 15. | NP5/61/L433A | Cais ol-weithredol i godi storfa boncyffion pren a beiciau, sied a phorth ceir | Ivy House, Harlech. LL46 2YT | 13/02/26 | Mrs Jane Jones |
| 16. | NP5/62/439B | Rhyddhau Amodau Rhif 4 (panel gwaith carreg) & 8 (cynllun draenio dwr gwastraff) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/62/439 dyddiedig 30/08/2024 | Erw Fair, Llanbedr. LL45 2LL | 12/02/26 | Mr Aled Lloyd |
| 17. | NP5/66/253B | Codi garej ar wahân gyda to brîg | Rebena, Llandanwg. LL46 2SD | 24/02/26 | Mr Aled Lloyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 18. | NP5/66/287A | Codi balconi cefn llawr cyntaf a gosod inswleiddio wal allanol | Pant Goleu House, Llanfair, LL45 2HS | 10/02/26 | Mr Ben Jones |
| 19. | NP5/67/353 | Dymchwel ystafell band presennol ac adeiladu ystafell band unllawr newydd | Ystafell Band, Abergynolwyn. LL36 9UU | 24/02/26 | Mr David Jones |
| 20. | NP5/69/113W | Trosi ysgubor Iseldireg a'r storfa goed a chodi estyniad cyswllt i ddarparu ystafell ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig a'r defnydd llety gwyliau yn Llanfendigaid | Llanfendigaid, Rhoslefain. LL36 9LS | 17/02/26 | Mr David Jones |
| 21. | NP5/70/1C | Adeiladu estyniad ochr unllawr | Ty Isaf, Llangywer. LL23 7DA | 25/02/26 | Mr Ben Jones |
| 22. | NP5/71/LB95 | Adeiladu estyniad | Pant-y-Ceubren, Llanuwchllyn. LL23 7DD | 09/02/26 | Mr. Dafydd Thomas |
| 23. | NP5/72/259 | Amnewid dormerau presennol, dormer blaen ychwanegol, a mynedfa flaen newydd gyda grisiau a chanopi | Ty Capel Moel-y-Garnedd, Llanycil. LL23 7YG | 04/03/26 | Mr Ben Jones |
| 24. | NP5/77/363A | Codi estyniad unllawr i'r blaen a'r ochr (Cais diwigiedig) | Tirionfa, Talsarnau. LL47 6UF | 12/02/26 | Mr Aled Lloyd |
| 25. | NP5/78/L225A | Gosod 14 panel solar ar rhan o'r to yn gwynebu'r ffrynt | Beehive, Stryd Fronwnion, Trawsfynydd, LL41 4SE | 19/02/26 | Mr Ben Jones |
| 26. | NP5/78/LB412S | Rhyddhau Amod Rhif 8 (rhaglen gwaith archaeolegol) ynghlwm i Ganiatad Adeilad Rhestredig NP5/78/LB7R dyddiedig 25/01/2021 | Rhiw Goch Inn, Bronaber, Trawsfynydd. LL41 4UY | 11/02/26 | Miss Eva Jones |
| 27. | NP5/78/LB412T | Rhyddhau Amod Rhif 8 (rhaglen gwaith archaeolegol) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/78/LB7S dyddiedig 15/01/2021 | Rhiw Goch Inn, Bronaber, Trawsfynydd. LL41 4UY | 11/02/26 | Miss Eva Jones |

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad ar yr Apêl

gan Declan K Beggan BSc (Anrh) MSc DipTP DipMan MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 19/02/2026

Cyfeirnod yr apêl: CAS-04312-S4M9Y9

Cyfeiriad y safle: Llwyneinion Fechan, Dyffryn Ardudwy, LL44 2HX

---

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio amlinellol.
- Gwneir yr apêl gan Mrs Sian Kohring yn erbyn y penderfyniad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Gwrthodwyd y cais Cyf NP5/58/660, dyddiedig 18 Mawrth 2024, drwy hysbysiad dyddiedig 25 Tachwedd 2024.
- Disgrifir y datblygiad arfaethedig fel "Addasu adeiladau fferm segur i ffurfio 2 uned gosod gwyliau tymor byr ynghyd â gosod gwaith trin pecynnau".
- Cynhaliwyd ymweliad â'r safle ar 6 Tachwedd 2025.

---

## Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

## Materion Gweithdrefnol

2. Mae'r disgrifiad o gyfeiriad y safle yn amrywio ychydig rhwng yr hyn a nodir ar y ffurflen gais cynllunio a gyflwynwyd, a hysbysiad penderfynu'r Awdurdod; rwyf wedi defnyddio'r disgrifiad blaenorol o gyfeiriad y safle gan ei fod yn fwy manwl gywir. O ran y disgrifiad o'r datblygiad y gwrthodwyd caniatâd cynllunio iddo yn ystod ystyriaeth yr Awdurdod o'r cais, diwygiwyd y disgrifiad i adlewyrchu'r disgrifiad fel y manylir uchod; ar y sail hon yr wyf wedi ystyried y cynnig.

## Y Prif Fater

3. Y prif fater yn yr apêl hon yw p'un a ellir cyfiawnhau'r datblygiad arfaethedig gan gofio polisïau cynllunio sy'n ceisio rheoli'n llym datblygiad yng nghefn gwlad, gan ystyried yn arbennig ei leoliad ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

## Rhesymau

4. Mae safle'r apêl yn ymwneud â grŵp o ysguboriau amaethyddol segur ar dir o'r enw Fferm Llwyneinion Fechan. Mae'r safle wedi'i leoli yng nghefn gwlad agored. Mae'r cynnig yn ceisio addasu tair ysgubor yn ddau lety gwyliau.

5. Mae gwrthodiad yr Awdurdod yn cyfeirio at ddarpariaeth annigonol o dystiolaeth i ddangos y byddai'r cynnig yn rhan o fenter wledig bresennol neu'n rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol ar fferm weithiol wedi'i meddiannu; o ganlyniad, mae'n dyfynnu gwrthdaro â pholisïau 9 a 20 Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Eryri a fabwysiadwyd. Mae Polisi 9 y CDLl yn caniatáu trawsnewidiadau gwledig o'r fath os ydynt yn llety gwyliau

hunanarlwyo tymor byr yn rhan o gynllun menter wledig. Mae Polisi 20 y CDLl yn cefnogi arallgyfeirio gwledig ac yn dyfynnu nifer o feini prawf perthnasol a fanylir fel: mae'r datblygiad yn ffurfio rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol; mae'r cynnig yn eilradd i ddefnydd y tir sy'n weddill ar y daliad ar gyfer da byw neu gynhyrchu cnydau; mae'r cynllun yn digwydd ar ddaliad sydd wedi'i gofrestru fel busnes amaethyddol presennol, ac mae'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Datblygu 9.

6. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) yn tynnu sylw at y system dan arweiniad y cynllun sy'n sail i ddatblygu cynaliadwy. Mae hefyd yn nodi y dylid gwarchod cefn gwlad, yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd, a lle bo'n bosibl ei wella er mwyn ei hun, a bod yn rhaid rheoli'n llym ddatblygiad newydd yng nghefn gwlad agored sydd i ffwrdd o aneddiadau presennol neu ardaloedd sydd wedi'u dyrannu i'w datblygu mewn cynlluniau datblygu.

7. Nid yw'r Awdurdod yn anghytuno â chydymffurfedd y cynnig â gwthiad eang polisïau 9 a 20; fodd bynnag, yn ganolog i ystyried pob polisi yw'r ffaith y dylai cynigion o'r fath fod yn rhan o gynllun menter wledig presennol, gyda pholisi 20 yn fwy penodol o ran meini prawf cymwys.

8. Mae'r apelydd yn honni bod y daliad yn fferm weithiol ac felly mae'r gwaith yn cynrychioli cynllun arallgyfeirio amaethyddol, fodd bynnag, byddai'r dystiolaeth yn dangos fel arall. Mae'r apelydd yn dadlau bod diffyg meddiannaeth yr annedd bresennol ar y safle oherwydd gwaith adnewyddu a bod anheddau eraill yn yr ardal yn cael eu defnyddio tra'n parhau i gynnal y fferm. Roedd yr annedd bresennol ar y safle yn ymddangos yn wag/heb ei meddiannu ac nid oedd unrhyw waith adnewyddu amlwg ar waith. Sylwais ar y safle bod diffyg gweithgaredd amaethyddol amlwg sydd fel arfer yn gysylltiedig â menter ffermio wledig e.e. peiriannau fferm neu arwyddion diweddar o weithgarwch sy'n gysylltiedig â fferm. Roedd yn anodd gweld yn union a oedd y defaid a oedd ar gaeau ger y daliad wir ar y tir sy'n destun menter wledig. Fodd bynnag, sylwais ar faw defaid cymharol ffres; ni welais arwyddion o dda byw eraill fel gwartheg.

9. O ran polisi 20 y CDLl, mae'r apelydd wedi cadarnhau bod Llwyneinion Fechan yn ddaliad fferm gofrestredig, fodd bynnag, mae'r manylion stocio yn amrywio'n sylweddol o ran y wybodaeth a gyflwynwyd e.e. crybwyllir 100 o ddefaid yn yr adroddiad cychwynnol ond cyfeirir at 70 mewn adroddiad diweddarach dilynol, a chyfeirir at 50 o ŵyn a 4 o hyrddod yn yr adroddiad cychwynnol ond cyfeirir at 105 yn yr adroddiad diweddarach; mae hyn yn bwrw amheuaeth sylweddol ar ddibynadwyedd tystiolaeth o'r fath.

10. Hefyd, nid yw'r apelydd wedi darparu unrhyw wybodaeth ystyrlon arall i atgyfnerthu ei safbwynt bod y datblygiad arfaethedig yn rhan o fenter wledig bresennol, mewn gwirionedd e.e. drwy wybodaeth ariannol ddiweddar. Darparodd yr apelydd wybodaeth o ran 'Map Glastir', fodd bynnag, mae'r map hwnnw'n dyddio o beth amser yn ôl h.y. 2010 ac mae'r tir a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r hyn a ddangosir mewn dogfennau eraill y cais o ran maint y daliad cyffredinol. Nodaf fod yr apelydd wedi darparu 'Ffurflen Gais Sengl' o 2022 yn ymwneud â thaliadau'n cael eu hawlio o Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, ni ddarparwyd cadarnhad o unrhyw hawliad llwyddiannus ac ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ddiweddar bellach yn ymwneud ag unrhyw fath o daliadau fferm, na lefelau stocio anifeiliaid mwy diweddar, na gwybodaeth ariannol yn ymwneud â'r daliad.

11. Rwy'n derbyn bod safle'r apêl wedi bod yn rhan o ryw fath o fenter amaethyddol ar ryw adeg yn y gorffennol, fodd bynnag, ar hyn o bryd, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn, nid yw'n ddigon clir bod menter o'r fath yn bodoli o hyd. Rhwng popeth, nid wyf yn credu bod yr apelydd wedi darparu gwybodaeth ddigon cadarn i gefnogi eu honiadau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn rhan o fenter wledig bresennol neu'n rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol ar fferm weithiol feddiannedig. O ganlyniad, byddai'r datblygiad

arfaethedig yn mynd yn groes i bolisïau’r CDLl a PCC uchod ac felly nid yw'r datblygiad arfaethedig wedi cael ei gyfiawnhau yn ei leoliad gwledig.

*Materion eraill*

12. Rwy'n gwerthfawrogi bod y datblygiad arfaethedig yn cynnig cyfle i gynnal yr economi wledig; fodd bynnag, mae angen i ddatblygiad o'r fath gydymffurfio â'r CDLl yn ei gyfanrwydd ac yn yr achos hwn, nid yw wedi'i gyfiawnhau o ran polisi cynllunio.

*Casgliadau*

13. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth ger fy mron, ac am y rhesymau a roddir uchod, deuaf i'r casgliad y dylid gwrthod yr apêl.
14. Wrth ddod i’m penderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rwy'n ystyried bod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf drwy ei chyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

*Declan K Beggan*

Arolygydd